

Llyfr Croeso Dysgu Cymraeg



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

“Initially I joined the class to learn Welsh to help my three-year-old build his language skills for school and at home. The real bonus is that the class, the tutor and the other learners are fabulous. The class has become a social learning event.”

Joanne



Croeso!

Bob blwyddyn mae miloedd o bobl yn dechrau dysgu Cymraeg.

Mae cyrsiau ar gael ym mhob rhan o'r wlad ac mae croeso cynnes i bawb.

Yn ogystal â'r gwersi, mae cyfleoedd i ti ymarfer a mwynhau siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Os wyt ti eisiau gwybodaeth am unrhyw beth yn y llawlyfr, mae mwy o fanylion ar **dysgucymraeg.cymru**

Cofia dy fod yn gallu cofrestru ar-lein ar gwrs Cymraeg neu chwilio am gyfleoedd eraill i ymarfer a gwella dy Gymraeg hefyd.

Pob hwyl!

Os wyt ti eisiau fersiwn print bras, mae modd argraffu PDF o'r Llyfr Croeso o **dysgucymraeg.cymru**

Welcome!

Every year, thousands of people sign up to learn Welsh.

Courses are available in communities across the country, where a warm welcome awaits you.

Alongside Welsh lessons, there are plenty of other opportunities for you to practise and enjoy speaking Welsh outside the classroom.

This booklet gives you more information about learning Welsh. Information is also available at **learnwelsh.cymru**, where you can search for courses and register online.

Pob hwyl – all the best!

If you would like a version of this booklet with a lagrger font, a PDF copy is available at **learnwelsh.cymru**



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

sy'n arwain Dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae'r Ganolfan yn gweithio gydag 11 o ddarparwyr ledled Cymru sy'n cynnig rhaglen o gysiau. Os oes gen ti unrhyw gwestiwn, cysyllta â'r darparwr lleol neu ffonia'r Ganolfan Genedlaethol ar 0300 3234324

The National Centre for Learning Welsh

is responsible for all aspects of the Welsh for Adults education programme. The National Centre works with 11 providers who deliver a programme of courses. If you have any questions, contact your local provider or telephone the National Centre direct on 0300 3234324.



Cofia ein dilyn ni ar
Twitter a Facebook:

[@learncymraeg](https://twitter.com/learncymraeg)

Remember to follow us on
Twitter and Facebook:

[@learncymraeg](https://twitter.com/learncymraeg)



Darparwyr/Providers

Ardal/Area



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Gogledd Orllewin
North West**

**Ynys Môn/Anglesey,
Gwynedd, Conwy**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Gogledd Ddwyrain
North East**

**Dinbych/Denbigh, Flint/Flint,
Wrecsam/Wrexham**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Sir Benfro
Pembrokeshire**

Sir Benfro/Pembrokeshire



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region**

**Abertawe/Swansea,
Castell Nedd/Neath, Port Talbot**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro / The Vale

Bro Morgannwg/Vale of Glamorgan



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Caerdydd / Cardiff

Caerdydd/Cardiff



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

**Caerffili/Caerphilly, Blaenau Gwent,
Torfaen, Sir Fynwy/Monmouth,
Casnewydd/Newport**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion-Powys

Ceredigion, Powys



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Sir Gâr
Carmarthenshire**

Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Morgannwg
Glamorgan**

**Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil,
Rhondda Cynon Taf,
Pen-y-Bont ar Ogwr/Bridgend**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Nant Gwrtheyrn

Cyrsiau Preswyl/Residential Courses

Ffôn/Phone

E-bost/E-mail

01248 383928

dysgucymraeg@bangor.ac.uk

01978 267596

learncymraeg@cambria.ac.uk

01437 770180

learnwelsh@pembrokeshire.gov.uk

01792 602070

dysgucymraeg@abertawe.ac.uk

01446 730402

learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk

029 2087 4710

cymraegioedolion@caerdydd.ac.uk

01495 333710

welsh@coleggwent.ac.uk

0800 876 6975

dysgucymraeg@aber.ac.uk

01267 246862

dysgucymraeg@sirgar.gov.uk


01443 483 600

learnwelsh@southwales.ac.uk

01758 750 334

post@nantgwrtheyrn.org





Lefel

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael ar bum lefel.

Os byddi di'n dysgu am ddwy awr yr wythnos yn unig, byddi di'n gwneud hanner lefel mewn blwyddyn. Mae cyrsiau lefelau Uwch a Hyfedredd yn amrywio

Bydd pedair awr yr wythnos (mewn dosbarth neu'n gyfunol) yn golygu cwblhau lefel gyfan.

Os wyt ti ar gwrs dwys iawn, bydd dy gynnydd yn gynt byth.

Level

Welsh courses are available at five different levels.

If you learn for two hours per week. You will complete half a level in a year. Advanced and Proficiency level courses vary.

Doubling your learning hours to four per week (either in a class or a combination of classroom and online learning) means you will complete one level in a year.

If you are learning on an intensive course, you will progress even faster.



Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, ble mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.

Courses for beginners, where the emphasis is on conversational Welsh.



Erbyn diwedd lefel Sylfaen, bydd yn bosib siarad am fywyd pob dydd. Mae'r pwyslais yn parhau i fod ar yr iaith lafar a bydd prif batrymau'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno.

By the end of this level, you'll be able to talk about everyday subjects. The emphasis remains on speaking the language; key language patterns are introduced.



Mae mwy o ysgrifennu, darllen a gwrando yn cael eu cyflwyno ar y lefel hon - ond mae'r pwyslais o hyd ar siarad yr iaith.

More writing, reading and listening is introduced - but the emphasis is still on speaking the language.



Mae cyrsiau yn helpu myfyrwyr i gryfhau eu sgiliau ysgrifennu, ond eto, mae'r prif bwyslais ar gryfhau sgiliau siarad.

Courses help students strengthen their written skills but mainly concentrate on enhancing speaking skills.



Mae cyrsiau ar gael ar gyfer dysgwyr profiadol yn ogystal â siaradwyr rhugl sydd eisiau cryfhau eu sgiliau, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

For experienced learners as well as fluent speakers who want to improve their language skills.

“Dw i’n dysgu Cymraeg achos dw i’n hoffi Cymru. I want to learn more about Welsh culture and history...”

Daniel



Y Tiwtor

Mae dy diwtor yn hapus i helpu.

Yn ystod dy wersi cyntaf bydd yn egluro mwy am y canlynol:

- ▲ Y cwrs a'r adnoddau
- ▲ Presenoldeb
- ▲ Cefnogaeth sydd ar gael
- ▲ Cyfleoedd i ymarfer y tu allan i'r dosbarth

Safle Rhyngweithiol

Mae dysgucymraeg.cymru yn rhoi gwybodaeth am ddysgu a siarad Cymraeg i ti.

Bydd help gramadegol ar gael, sgysiau pum munud gyda dysgwyr, blogiau, newyddion lleol a chenedlaethol. Bydd adnoddau digidol ar gael i gyd-fynd â'r gwersi Cymraeg.

The Tutor

Your tutor is happy to help.

During your first few lessons, your tutor will explain the following:

- ▲ Course and resources
- ▲ Attendance
- ▲ Available support
- ▲ Opportunities to practise outside the classroom

Interactive Site

learnwelsh.cymru provides you with information about learning and speaking Welsh.

Grammatical tips, blogs, and local and national Welsh learner news are all available on the site, as well as digital resources complementing classroom work.

Cefnogi Dysgwyr

Mae dysgu iaith fel dysgu canu offeryn – mae angen llawer o ymarfer!

Mae digwyddiadau cymdeithasol yn cael eu trefnu ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg – mae'n gyfle ardderchog i ymarfer siarad ac i gwrdd â dysgwyr eraill mewn awyrgylch cyfeillgar.

Mae pob math o ddigwyddiadau ar gael ar gyfer dysgwyr – fel cwis tafarn a bore coffi, clwb darllen, gigs cerddoriaeth, chwaraeon, taith gerdded, ymweliad â'r theatr a llawer mwy.

Learner Support

Learning a language is like playing a musical instrument – it takes lots of practice!

Social events are organised for people learning Welsh. They are great opportunities for learners to practise their language skills and meet fellow students in a friendly, relaxed atmosphere.



Cofia fod modd i ti ymarfer gartref, gyda dy draed i fyn yw gwyllo S4C, neu'n gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg neu BBC Radio Cymru. Mae digon o apiau Cymraeg ar gael ar dy ffôn/ tabled hefyd.

All kinds of events and activities are held: from pub quizzes and coffee mornings to book clubs, sport clubs, music gigs, walking trips and theatre visits.

You can also practise at home, with your feet up watching Welsh language television on S4C, or listening to Welsh music or BBC Radio Cymru. Welsh apps are also available for your phone or tablet.



**“Dw i'n dysgu Cymraeg i
gymdeithasu, i ddatblygu cyfleoedd
gwaith, i ddysgu am Gymru a
diwylliant Cymreig.”**

Zachary





Ar Lafar

Gŵyl Gymraeg i Ddysgwyr
Welsh Learners' Festival

21 Ebrill/April 2018

Gŵyl undydd i ddysgwyr, ar safleoedd gwahanol ledled Cymru.

One-day festival for people learning Welsh, at various sites across Wales.

Gofynna i dy diwtor am fwy o wybodaeth.

Please ask your tutor for further details.

Gyda / With:

Teithiau tywys

Guided tours

Cwisys

Quizzes

Gweithdai crefftau

Craft workshops

A llawer mwy!

And much more!



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

national
museum
wales
cymru



LLYFRBELL GENEOLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Cymorth Ariannol

Mae posibilrwydd bod cymorth ariannol ar gael i helpu gyda chostau fel gofal plant, arholiadau, teithio ac adnoddau dysgu.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar **dysgucymraeg.cymru** yn yr adran 'Dysgwyr'.

Os oes gen ti unrhyw gwestiynau neu ffonia Swyddog Cyllid y Ganolfan Genedlaethol ar 01267 225114.

Financial Support

Financial support is available to help you pay for additional costs such as childcare, examination fees, travel expenses and learning resources.

More information can be found in the 'Learner' section on **learnwelsh.cymru**.

If you have any questions call the National Centre's Finance Officer on 01267 225114.

"I'm learning Welsh because I work in a hospital, and because I want to speak Welsh to my Welsh-speaking friends."

Katy

Polisiâu a Chanllawiau

Mae pob darparwr yn dilyn canllawiau sy'n sicrhau'r profiad gorau posib i ti. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu cynllun er mwyn sicrhau bod dysgwyr ym mhob rhan o Gymru yn cael yr un cyfleoedd.

Mae amrywiol bolisiâu, ar gyfer ffioedd, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb a diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Os oes gen ti gwestiynau, cysyllta â'r darparwr lleol.

Mae'r polisiâu llawn ar gyfer pob darparwr i'w gweld drwy [dysgucymraeg.cymru](https://learnwelsh.cymru)

Policies and Guidelines

Each provider follows guidelines to ensure the best possible learning experience for you. The National Centre is currently developing a plan to ensure every learner in Wales is given the same opportunities.

There are various policies in place for fees, health and safety, equality and safeguarding vulnerable adults. If you have any questions, please contact your local provider.

Each provider's policies can be seen in full via learnwelsh.cymru

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ar ddechrau'r cwrs bydd cyfle i ti nodi unrhyw gymorth ychwanegol fyddai o ddefnydd i ti yn y dosbarth.

Bydd dy diwtor yn gwneud yn siŵr dy fod yn cael pob cyfle i ddatblygu yn y dosbarth.

Byddi di'n cael cyfle i drafod targedau i helpu gyda dy ddysgu a dy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Additional Learning Needs

When the course starts, please tell your tutor if you need any additional help.

Your tutor will ensure you are given every opportunity to progress.

You will be able to discuss personal targets to help you learn and develop your confidence in using Welsh outside the classroom.

“I want to learn Welsh so I can actively take part in my children’s bilingual upbringing.”

Bethan



Asesu Sgiliau

Byddwn yn dy annog i gwblhau gwaith cartref bob wythnos a bydd dy diwtor yn rhoi adborth i ti i dy helpu i ddatblygu.

Bydd adnoddau dysgu digidol ar gael ar **dysgucymraeg.cymru** fydd yn rhoi cyfle i ti ymarfer a phrofi dy sgiliau ar-lein.

Bydd cyfle i ti ennill cymhwyster cenedlaethol trwy sefyll un o arholiadau CBAC a bydd y tiwtor yn rhoi mwy o wybodaeth i ti am hyn ac yn dy baratoi. Mae cyrsiau adolygu ar gael hefyd.

Mae arholiadau yn cael eu cynnal ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch.

Skills Assessment

You will be encouraged to complete weekly homework; your tutor will provide you with feedback to help you progress. There will also be regular feedback in class.

Digital teaching resources to support your learning will be available at **learnwelsh.cymru**

You will be given an opportunity to gain a national qualification if you wish to sit the exam. Your tutor will provide you with more information and help you prepare for the exam. Revision courses are also available.

Exams are held every year for Entry, Foundation, Intermediate and Advanced levels.

Mae'r corff arholi yng Nghymru - CBAC - yn trefnu arholiadau ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn ffordd dda o fesur dy gynnydd ac mae'r cymhwyster yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr.

WJEC arranges exams for the Welsh for Adults sector. This is a great way to measure your progress and your qualification will be recognised by employers.



I like learning languages: learning different grammatical patterns helps structure our brain, and the more we learn, the easier it is to learn more!

Alex



Beth wyt ti'n feddwl?

Mae dy farn yn bwysig i ni. Dyna pam hoffwn ni ofyn i ti ateb ychydig o gwestiynau dros y flwyddyn.

Byddwn yn anfon e-bost at gyda dolen i holiadur fydd yn ein helpu i wella ein gwasanaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

What do you think?

Your opinion is important to us. That's why we would like you to answer a few questions over the year.

We will send you an email with a link to a questionnaire that will help us improve services for Welsh learners



**Dyma i ti gyngor
a syniadau gan
bobl sy'n dysgu
Cymraeg ar hyn o
bryd...**

**Here are some
ideas and advice
from people
who are learning
Welsh...**



**Y ffordd orau i wella sgiliau siarad
yw defnyddio'r sgiliau hynny mor
aml â phosib...**

**The best way to improve your
speaking skills, is to practice as
often as you can...**



Fel dysgwr, siarad a gwranddo yw'r elfennau mwya' heriol. Wrth ddarllen ac ysgrifennu, does dim brys ac mae'n bosib ymarfer ar eich pen eich hun.

As a learner, speaking and listening are the most challenging aspects. When writing and reading, you can practice at your own pace, in your own time.



Gwybodaeth bwysig

Important information

Enw Tiwtor:

Lleoliad Dysgu:

Os wyt ti'n methu dod i'r dosbarth ffonia neu ebostia...
If you are unable to attend your class, email o'r phone...

Ebost:

Ffôn:

Rhif ffôn y swyddfa Dysgu Cymraeg:

Nodiadau:

Lesson:

A sheet of white lined paper with a vertical margin line on the left side. Along the left edge, there are ten circular punch holes. The paper is otherwise blank, with horizontal lines for writing.



Nodiadau:

Lesson:

A large white rectangular area with horizontal purple lines and a vertical purple margin line on the left. The left margin contains ten grey circular punch holes.





Dysgu
Learn

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

	Meddal	Trwynol	Llaes
C	G	Ngh	Ch
P	B	Mh	Ph
T	D	Nh	Th
G	/	Ng	
B	F	M	
D	Dd	N	
Ll	L		
M	F		
Rh	R		